**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 4)**

**Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Data (Defnydd a Mynediad) (“y Bil”) yn Nhŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 23 Hydref 2024. Gosodais LCM ar 2 Ionawr 2025 a dau LCM Atodol (SLCM) ar 12 Mawrth 2025 a 3 Ebrill 2025.

3. Ar 28 Ebrill 2025 cyflwynwyd nifer o welliannau'r llywodraeth i'r Bil ar gyfer cam Adrodd Tŷ'r Cyffredin, y disgwylir iddo gael ei gynnal ar 7 Mai. Mae'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, a ddisgrifir ym mharagraffau 7 i 19 isod.

4. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin, i'w weld yn: Y Bil Data (Defnydd a Mynediad) [Tŷ'r Arglwyddi]

## Amcan(ion) y Polisi

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw harneisio pŵer data er lles twf yr economi, i gefnogi llywodraeth ddigidol fodern, a gwella bywydau pobl. Mae'n nodi bod y Bil wedi'i gynllunio i gyflawni'r tri amcan hyn gyda mesurau wedi'u cynnwys i ddechrau cyflawni ei hymrwymiad i wasanaethu'r cyhoedd ym Mhrydain yn well trwy wyddoniaeth a thechnoleg.

## Crynodeb o’r Bil

6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:
   - caniatáu ar gyfer rhannu data cwsmeriaid yn ddiogel, e.e. data a ddelir gan ddarparwr cyfathrebu neu ddarparwr gwasanaethau ariannol, ar gais y cwsmer, gyda darparwyr trydydd parti awdurdodedig.
   - sefydlu strwythur deddfwriaethol ar gyfer darparu gwasanaethau dilysu digidol yn y DU.
   - darparu fframwaith deddfwriaethol i gefnogi gweithrediad y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol.
   - newid y ffordd y cofrestrir genedigaethau a marwolaethau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn gallu symud o system bapur i gofrestru electronig.

- newid rhannau o fframwaith diogelu data a phreifatrwydd y DU i gynnal safonau diogelwch uchel, gan ddelio â diffyg eglurder y ddeddfwriaeth bresennol sy'n faen tramgwydd rhag datblygu a defnyddio rhai technolegau newydd yn ddiogel.
- hwyluso llif data personol a'r defnydd ohono at ddibenion gorfodi'r gyfraith a diogelwch y wlad.
- diwygio'r rheoleiddiwr, y Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys ei strwythur llywodraethu, ei ddyletswyddau, ei bwerau gorfodi, ei ofynion adrodd a'r prosesau cwyno am ddiogelu data a'i waith datblygu codau ymarfer statudol.
- rhoi hyblygrwydd i'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan allu penderfynu ar y broses orau i'w dilyn ar gyfer penodi'r trwyddedai fydd yn olynu i ddarparu gwasanaethau cyfathrebu mesuryddion clyfar.
- estyn y pwerau rhannu data o dan adran 35 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 i gynnwys busnesau.
- diwygio Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 i'w gwneud yn ofynnol i OFCOM, pan gaiff ei hysbysu o farwolaeth plentyn gan y Crwner (neu'r 'Procurator Fiscal' yn yr Alban), gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein penodedig sy'n gofyn iddynt gadw am gyfnod penodedig wybodaeth benodol ynghylch y gwasanaeth a ddefnyddiwyd gan y plentyn fu farw.
- creu fframwaith sy'n caniatáu i ymchwilwyr gael mynediad at ddata sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein a gedwir gan gwmnïau technoleg.
- cadw gwybodaeth fiometrig, gan gynnwys yr hyn a geir pan fydd partneriaid rhyngwladol yn rhannu.
- diweddaru rheoliadau i sicrhau bod fframwaith cyfreithiol gwasanaethau ymddiriedaeth y DU yn parhau i weithredu'n effeithiol.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r LCM cyntaf**

7. Aseswyd bod y gwelliannau canlynol gan y llywodraeth a gyflwynwyd ar 28 Ebrill i Ran 1 o'r Bil angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd (y rhifau cyfeirnod a ddefnyddir isod yw'r rhifau cyfeirnod OPC a roddwyd i'r gwelliannau cyn eu cyhoeddi'n ffurfiol):
   - Gwelliannau OPC 155-160, sy'n diwygio cymal 4.
   - Gwelliannau OPC 139-141 ac OPC 168, sy'n diwygio cymal 11.
   - Gwelliant OPC 170, sy'n diwygio cymal 21.
   - Gwelliant OPC 173, sy'n diwygio cymal 25.

8. Mae Rhan 1 o'r Bil – Mynediad at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau - yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wneud data yn fwy cludadwy ac yn sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer sefydlu cynlluniau Data Clyfar.

9. Yn dilyn dadansoddiad cyfreithiol o oblygiadau'r gwelliannau newydd hyn, ystyriaf fod angen gosod yr SLCM hwn gerbron y Senedd am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 11 i 19 isod.

10. Nodwyd bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Rhan 1 o'r Bil yn yr LCM a osodwyd ar y Bil ar 2 Ionawr 2025. Roedd yn nodi:

- bod y cymalau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wneud y data yn fwy cludadwy er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid ac i fusnesau. At hynny, bwriedir i'r cymalau hyn ei gwneud yn haws rhannu data personol ond nid ydynt yn gwneud newidiadau i fframwaith y ddeddfwriaeth diogelu data ei hun ac felly nid ydynt yn ymwneud â pharagraff 170 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru (GoWA) 2006, "Protection of personal data";

- Gan fod diben y darpariaethau hyn yn ymwneud â busnes a'r economi, nid ydynt yn effeithio ar y mater a gedwir yn ôl ym mharagraff 170, nac unrhyw faterion eraill a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i GoWA 2006. Nid yw'r darpariaethau hyn chwaith yn ymwneud â "Regulation of the sale and supply of goods and services to consumers" ym Mharagraff 72 o Atodlen 7A i GoWA 2006; ac,

- O ran cymal 12 (ardollau), nid yw'r pŵer i godi ardoll yn gyfystyr â chodi treth sy'n dod o fewn cwmpas "Fiscal, economic and monetary policy including the issue and circulation of…taxes" fel y'u cedwir yn ôl gan baragraff 15 o Atodlen 7A i GoWA 2006.

<u>Gwelliannau OPC 155-160 – Rhan 1, Cymal 4</u>

11. Mae'r gwelliannau hyn yn diwygio cymal 4 ac yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf mewn cysylltiad â derbynnydd trydydd parti data busnes sy'n cael ei benodi gan awdurdod cyhoeddus i wneud rhywbeth gyda'r data hwnnw.

12. Gan fod gwelliannau OPC 155-160 yn diwygio cymal 4 trwy wneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf, mae angen cydsyniad deddfwriaethol.

<u>Gwelliannau OPC 139-141 ac OPC 168 - Rhan 1, Cymal 11</u>

13. Mae'r gwelliannau hyn yn diwygio cymal 11 trwy ymestyn y pŵer i wneud rheoliadau o dan y cymal hwn o dreuliau i ddarpariaeth ehangach sef gweithgareddau ('activities').

14. Mae gwelliant OPC 168 yn diwygio cymal 11 trwy ymestyn y pŵer i wneud rheoliadau o dan y cymal hwn i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ynghylch a gaiff person a allai wneud taliad yn ofynnol am weithgaredd wneud hynny.

15. Gan fod gwelliannau OPC 139-141 ac OPC 168 yn diwygio cymal 11 trwy ymestyn cwmpas rheoliadau, mae angen cydsyniad deddfwriaethol.

Gwelliant OPC 170 - Rhan 1, Cymal 21

16. Mae'r gwelliant hwn yn diwygio cymal 21 trwy wneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf trwy ymestyn yr eithriad i'r pŵer i wneud rheoliadau yng nghymal 21 (i gynnwys cymal 11(9) sy'n welliant newydd sy'n ymestyn pwerau i wneud rheoliadau).

17. Gan fod gwelliant OPC 170 yn diwygio cymal 21 trwy wneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf, mae angen cydsyniad deddfwriaethol.

Gwelliant OPC 173 - Rhan 1, Cymal 25

18. Mae'r gwelliant hwn yn diwygio cymal 25 ac yn ychwanegu'n benodol reoliadau a wneir o dan gymal 4(4)(b) neu (c) at gyfeiriadau at reoliadau a wneir o dan gymalau 4(3) neu gymalau 5 i 21 am y tro cyntaf.

19. Gan fod gwelliant OPC 173 yn diwygio cymal 25 trwy wneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf, mae angen cydsyniad deddfwriaethol.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

20. Darparwyd crynodeb o farn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar 2 Ionawr. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau mai dyma ei safbwynt o hyd ac mae'n berthnasol i'r gwelliannau hyn.

21. Roedd hwn yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau cyffredinol o dan Ran 1, Mynediad at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, cymalau 1-28 wedi'u cadw yn ôl o dan y cymalau diogelu defnyddwyr yn Atodlen 7A adran C6 o GoWA 2006; ond eu bod mewn maes datganoledig o safbwynt cwsmeriaid busnes. At hynny, mae'r darpariaethau 'Data Clyfar' wedi'u cadw yn ôl pan fônt yn gymwys i'r sector gwasanaethau ariannol, gan y cymalau gwasanaethau ariannol (Paragraff 17 o Atodlen 7A i GoWA 2006). Mae Llywodraeth y DU yn ystyried hefyd bod y pŵer i godi ardoll o dan gymal 12, Ardollau yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl o dan y cymalau ar bolisi cyllidol, economaidd ac ariannol – Paragraff 15 o Atodlen 7A i GoWA 2006.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil**

22. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi bwriad polisi Llywodraeth y DU y tu ôl i'r Bil.

23. Mae'r mwyafrif llethol o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r materion a gedwir yn ôl o dan y cymalau ar ddiogelu data, y cymalau ar werthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr, y cymalau ar delegyfathrebu a'r cymalau ar gofrestru genedigaethau, marwolaethau ac addoldai, fel y'u nodwyd yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

24. Yn SLCM (Rhif 3), cadarnheais fod trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â phryderon cyfansoddiadol Llywodraeth Cymru gyda'r Bil wedi dod i ben, ac o ganlyniad i welliannau a gyflwynwyd i Ran 3 o'r Bil, argymhellais fod y Senedd yn cefnogi'r Bil hwn ac yn rhoi ei chydsyniad.

25. O ganlyniad i'r gwelliannau diweddaraf, gallaf barhau i argymell bod y Senedd yn cefnogi'r Bil hwn ac yn rhoi ei chydsyniad.

*Digonolrwydd Data'r UE*

26. Er hynny, mae pryderon yn parhau mewn perthynas â'r effaith y gallai'r Bil ei chael ar statws Digonolrwydd Data'r DU, fel y nodir yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar y Bil.

27. Ar 18 Mawrth, cynigiodd Comisiwn yr UE estyn ei benderfyniadau digonolrwydd tan 27 Rhagfyr 2025. Bwriad yr estyniad yw rhoi digon o amser i'r Comisiwn gwblhau ei adolygiad o'r penderfyniadau digonolrwydd unwaith y bydd y Bil wedi cwblhau ei daith trwy Senedd y DU.

**Goblygiadau ariannol**

28. *Rhan 1, Mynediad at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau -* yn cynnwys pwerau i godi ffioedd ar ddeiliaid data ac eraill a chodi ardoll ar ddeiliaid data ac eraill. Mae Llywodraeth y DU yn nodi mai bwriad y rhain yw talu am y costau a ysgwyddir gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a gorfodwyr wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'n datgan mai amcan y darpariaethau yw sicrhau bod cynlluniau'n hunangyllido ac nad ydynt yn ddibynnol ar arian cyhoeddus.

**Casgliad**

29. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym.

30. Felly, rwyf yn argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynnig a rhoi ei chydsyniad.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**28 Ebrill 2025**